# Y BIGWN

CYF. 35 RHIF 1 MAWRTH 2023 *Papur Bro Dinbych* *Pris £1*


# Dau Gôr yn difyrru



Côr Dyffryn Clwyd



Côr Meibion Bro Aled



Dde: Ceri Haf Roberts, Arweinydd Côr Dyffryn Clwyd,, Glyn Owens,Arweinydd y Noson ac Angharad Ellis,Arweinydd Côr Meibion Bro Aled.

"Trefnwyd cyngerdd gan Glwb Rotari Dinbych yn Neuadd y Dref, Dinbych, nos Sadwrn y 18fed o Chwefror er budd elusennau lleol, Wcráin yn ogystal â thrychineb Twrci a Syria.

Cafwyd perfformiadau gwych gan yr holl artistiaid, yn cynnwys Côr Dyffryn Clwyd, Côr Meibion Bro Aled, Ceri Haf Roberts, Elis Jones a Sion Eilir Roberts gyda Glyn Owens yn arwain y noson.

Fe wnaethpwyd elw ar y noson o £3,500 tuag at yr elusennau pwysig hyn.

Hoffa'r clwb Rotari ddiolch YN FAWR IAWN i bawb a gyfrannodd at y noson."




Sion Eilir Roberts ac Elis Jones

# Dathlu Santes Dwynwen



Gwyn ac Ifor John yn canu deuawd



Ifor John



Y Parch. Ddr Andras Iago yn gweini




Pawb yn mwynhau y wledd -
hanes ar dudalen 8




Daniel Morris –cigydd Teuluol Dinbych—tud 3



Angharad yn dangos ei gwaith yng Nghymdeithas
y Chwiorydd Fron a Brwcws—tud 4

## RHESTR Y SWYDDOGION

**CADEIRYDD**
**Stan Lyall 813659**

**SWYDDOG HYSBYSEBION**
Nerys Ann Roberts
01745 814950

**GOLYGYDDION:**
Erfyl Williams (814832)
Dyfrig Berry (814362)
Morgan Cordiner (813387)
Martha Cordiner (813387)

**YSGRIFENNYDD**
Sian Rogers
siani77.sr@gmail.com

**TRYSORYDD**
Llifon Jones
Sŵn y Nant, 31 Y Maes,
Dinbych
LL16 3JR
llifonjones9@gmail.com

**CARTWNYDD**
Huw Vaughan Jones

**DOSBARTHWYR**
Llifon Jones (814677)
Dafydd Williams (813065)

**TEIPYDDION:**
Rhian Williams (816251)
Gwenan Ellis (813106)

**Ebost y Bigwn:**
gwybod@ybigwn.cymru

Cyhoeddwyd gan:
Gymdeithas y Bigwn
Cysodwyd gan Hywel Evans
hywel@hywel1310.plus.com

ac Argraffwyd gan
Wasg Helygain

'Ariennir yn rhannol gan Llywodraeth Cymru'

CYMRAEG

**Golygydd Mis Chwefror Dyfrig Berry**

# Gair gan y Golygydd

## Gŵyl y banc I Gymru?

Pan ddaw mis Mawrth y peth cynta' sy'n dod i feddwl dyn yw'r ffaith fod y gwanwyn ar droed; er, rhaid cyfaddef nad yw'n teimlo felly eleni gyda storm eira ar y gorwel wythnos nesaf. Er hyn, heb os, yr achlysur pwysicaf i ni fel Cymry yn y mis hwn yw, wrth gwrs, diwrnod ein Nawddsant, Dewi Sant. Awn yn ôl mewn hanes i'r flwyddyn 558. Yn ôl y chwedl, cafodd Dewi ei eni ar ymyl clogwyni arfordir Sir Benfro ger Capel Non mewn storm ffyrnig. Roedd ei fywyd yr un mor od a diddorol a'i enedigaeth. Cyflawnodd Dewi sawl gwyrth yn ei fywyd, fel iachâu dyn dall a chodi'r tir o dan ei draed mewn pregeth; dim ond i enwi ychydig. Yn wir, roedd Dewi yn ddyn arbennig, ac felly, mae'n glir i weld fod achos cryf i ddathlu ei fywyd.

Mae Diwrnodau Sant Padrig a Sant Andrew ers y flwyddyn ddiwethaf bellach yn wyliau banc. Felly, y cwestiwn tyngedfennol yw, pam nad yw Mawrth 1af, Dydd Gŵyl Dewi, bellach yn ŵyl y banc? Yn ôl llywodraeth Prydain, y rheswm am hyn yw fod Yr Alban a Gogledd Iwerddon â "gwahanol hanesion, systemau economaidd, cymdeithasol, diwylliannol a chyfreithiol", ac felly, maent yn haeddianol o'u gwyliau banc. Er hyn, mae dadl y byddai gŵyl y banc o bosib yn arwain at hwb i economi Cymru, twristiaeth, a chynyddu apêl ryngwladol Cymru. Mae'n gyfle i ni hyrwyddo ein Cymreictod ar draws y byd. Braf fyddai gweld pobl yn ymddiddori yn ein hiaith, traddodiadau a diwylliant unigryw.

I gloi, mae gweithredoedd Dewi Sant yn ein hatgoffa o bwysigrwydd, effaith ac arwyddocâd, ein hymddygiad a'n gweithredoedd. Mae'r ymadrodd 'gwnewch y pethau bychain mewn bywyd' yn fantra i ni y Cymry. Mae effaith ein Nawddsant yn parhau i fod yn gryf ar y Cymry; onid yw hyn yn ddigon o sail i Fawrth 1af fod yn ŵyl y banc I Gymru?

Morgan Cordiner



## BAG Y BIGWN

Gwenda Jones £10
Eirwyn a Mary Jones £10
Hetty Humphries £5
Di-enw £10

**Diolch yn fawr am eich cefnogaeth**

### Cigydd gorau Cymru

Enillodd Daniel Morris, Prion, wobr Pencampwr Cigyddion Cymru mewn noson wobrwyo yng Nghaerdydd yn ddiweddar. Enillodd sawl gwobr i'w siop gigydd sydd ar waelod Stryd y Dyffryn, Dinbych. Mae hefyd wedi agor dwy siop arall yn ddiweddar yn Yr Wyddgrug a Llangollen. Bydd yn awr yn mynd ymlaen i gynrychioli Cymru yn Nhŷ'r Arglwyddi ym mis Mai. Llongyfarchiadau'r ardal iddo.

## Dyddiadur

**Nos Sadwrn, Mawrth 11eg.**
Tic Toc
Sioe Gerdd Ddwyieithog yn Theatr Twm o'r Nant

Tocynnau gan Gaynor Morgan Rees 01745 812349 ac o Siop Clwyd 01745 813431

**Clwb Ffilmiau Dinbych,**
Theatr Twm o'r Nant,
Pnawn Mercher Mai 8fed
am 1.30 o'r gloch,
mynediad AM DDIM.
"Only Two Can Play" (1962)
Peter Sellers fel Llyfrgellydd rhwystredig yn Abertawe mewn trafferthion priodasol!! Comedi

**Dyddiad cau Y BIGWN mis Ebrill**
**Pob dim i gyrraedd e-bost**
**Y Bigwn - gwybod@ybigwn.cymru erbyn**
**Mawrth 24**

## Eglwys Unedig Y Fron a'r Brwcws

Bore Sul, Ionawr 15ed yr oedd yr oedfa Gymun dan ofal ein Gweinidog y Parch Andras Iago ac ef hefyd oedd yn gwasanaethu yn Y Capel Mawr dydd Sul, Ionawr 22ain. Bore Sul, Ionawr 29ain fe wnaeth Richard Snelson, llywydd y mis, estyn croeso a diolch i'r Parch Huw Dylan Jones am ei wasanaeth ac am ei genawdri i ni. Ein gweinidog oedd yng nghofal oedfa gymun yn y Capel Mawr, dydd Sul y 5ed o Chwefror, ac yn y Fron bore Sul Chwefror 12 fed. Yr organyddion yn ystod y mis oedd Iona Edwards ac Eiri Jones. Llongyfarchiadau i Mrs Margaret Madoc-Jones ar ddod yn Nain i Ani Wyn merch Bethan a Ben. Diolch i Richard Snelson am ei waith yn gofalu am y cyfrifon, sydd ddim yn swydd hawdd iawn y dyddiau hyn, ac yr ydym wedi derbyn yr adroddiad blynyddol. Braf ydi gweld aelodau sydd wedi methu â dod i'r oedfa oherwydd gwahanol amgylchiadau yn gallu dod yn ôl i'r gwasanaethau.

## Cymdeithas y Chwiorydd

(llun ar dudalen 2)

Wrth syllu allan drwy'r ffenestr a gweld lliwiau rhai o'r blodau bach yn gwthio drwy'r pridd, dwi'n gwerthfawrogi'n fwyfwy'r lliwiau a welsom yng ngwaith Angharad Rhys.

I esbonio mwy. Fe gawsom wledd o weld gwaith cwiltio Angharad yn ystod ein cyfarfod. Roedd llawer"WIW ac AAA" yn ystod yr amser a gawsom gyda'n gilydd.

Merch o Ddinbych ydi Angharad ac fe gawsom ei hanes yn ei ffordd ddiymhongar hi. Athrawes wedi ymddeol ydi hi ond coeliwch fi, mae hi'n brysur iawn ar ôl ymddeol. Dywedodd ei bod wedi dysgu llawer tra'n helpu ei thad yn y sied lle'r oedd o yn creu gyda choed. Roedd yntau'n grefftwr ac fe gawsom weld stôl o'i waith.

Yng ngeiriau Angharad, "Dydw i ddim yn greadigol - copïo patrwm ac altro fel bo'r angen fydda i." Wel i chi, os nad yw hi'n greadigol does fawr o obaith i rywun fel fi!

Ar ôl dechrau drwy wneud sampleri, mae wedi gwneud sawl cwilt i'r hogiau a hefyd i Elgan, yr ŵyr. Mae'r cwiltiau yn cymryd tua blwyddyn i'w cwblhau. Diolch yn fawr iddi am rannu ei gwaith a hynny mewn ffordd hwyliog.

Diolch i Dilys am groesawu pawb. Cafwyd munud o dawelwch er cof am aelod ffyddlon, sef Magi Jones. Diolch i Wendy am ein harwain gydag emyn a gweddi. Hefyd diolch i Enid a Gwenda am baratoi paned.

**Carolyn**

## Aelwyd Y Capel Mawr

Mae'r Aelwyd wedi bod yn cyfarfod ers mis Hydref, y tro cyntaf ers y clo mawr. Cafwyd sgwrs gan Nerys Ann Roberts ym mis Tachwedd. Cawsom sgwrs ddiddorol iawn, yn edrych i'r gorffenol ac i'r dyfodol. Roedd yn ddiddorol iawn clywed am yr hen weinidogion, a'r aelodau hefyd yn trafod pa mor niferus oedd y gynulleidfa. A'r enwogion oedd ymhlith yr aelodau, fel Gwilym R Jones, Kate Roberts a Mathonwy Hughes. Dwy o'r aelodau yn dweud mor ffodus oedden nhw o fod yn eistedd ar gyfer dau o'r enwogion hyn, a chlywed wedyn i'r ddau fod wedi dweud mor lwcus oedden nhw o fod yn edrych ar ddwy mor olygus yn ystod y gwasanaeth!

Ym mis Ionawr darllenwyd cerdd Mererid Hopwood gan Gaenor Morgan Rees Gwilym Luke Jones oedd y siaradwr gwadd. Cawsom brynhawn difyr iawn yn clywed hanes Taid Alwenna . Roedd yn un o bedwar o blant o ardal Gwyddelwern (nefoedd o le!) Bu Gwilym ac Alwenna yn brysur yn datrys y dirgelwch am hanes brodyr ei thaid, a pham na fyddai byth yn sôn amdanynt. Fe wnaethon lwyddo wedi llawer o grwydro ac ymchwilio, a darganfod yr achos trist. Dau wedi marw yn ifanc oherwydd salwch, a'r llall wedi ei ladd yn y Rhyfel Byd Cyntaf.

Cawsom brynhawn diddorol arall ym mis Chwefror.

Dechreuwyd gan Dorothy Rogers a ddarllenodd un o weddiau Gareth Maelor, sef y weddi i'r unig. Croesawyd Lysbeth Mair Jones atom gan Rhiannon Wynne y llywydd. Mair fel ei chwaer Ann yn un o blant y Capel ac yn falch o'i magwraeth yma. Cawsom brynhawn difyr iawn yn gwrando ar ei sgwrs yn sôn am ei gwaith a'i phrofiadau. Roeddem yn eistedd yn gylch a darganfod pwysigrwydd myfyrdod. Mae Mair wedi gwneud gwaith pwysig iawn yn ystod ei gyrfa, ac roedd yn teimlo'r fraint gafodd yn gofalu am ei rheini yn eu blynyddoedd olaf. Mae Mair yn teimlo yn gryf dros heddwch a gofalu am y blaned ynghyd â phynciau eraill pwysig iawn, y cyfan yn dod o fewn Ffydd, Cariad a Gobaith.

Diolchwyd i Mair gan Olwen Roberts


PYBJ



GWAITH SAER PEN-YBRYN Cyf

*Arbenigwyr Gwaith Coed a Lloriau*

Gwaith coed i gyfarfod â'ch holl ofynion

Ffôn:01745 815481 Facs:01745 814332

e-bost:mail@penybrynjoinery.co.uk




**Tŷ Te a Delicatessen**

**Coronation Buildings,**

**Lôn Gefn,**

**Dinbych, Ll16 3TE**

**01745 816576**

# Y Ffliw Sbaenaidd

Fel gŵyr bob plentyn am y Pla Du yn y bedwraedd ganrif ar ddeg ac â fu'n gyfrifol am farwolaeth traean o boblogaeth Ewrop, prin yw'r sylw gafodd darn o hanes â elwir 'Y Ffliw Sbaenaidd'. Er iddo achosi llawer mwy o ddinistr na'r Pla Du a lladd bron i chwe gwaith y nifer a syrthiodd dros bedair blynedd yn y Rhyfel Mawr, gellir awgrymu mai cuddio tu ôl i gysgod y Rhyfel Byd Cyntaf fu ei hanes. I'w roi mewn persbectif collwyd 16 miliwn yn y Rhyfel Byd Cyntaf rhwng 1914 a 1918 ac mae nifer o farwolaethau o'r Pandemig ffliw dros y Byd rhwng Mawrth 1918 a Mawrth 1920 wedi ei amcangyfrif rhwng 50 a 100 miliwn. Nid yw'r ffigyrau yn ddibynadwy gan nad oedd ystadegau cymes ar gael, yn enwedig o Affrica a'r Dwyrain Pell. Yn gyffredinol mae ffliw yn lladd ar draws y Byd rhwng 250,000 a 500,000 yn flynyddol, drwy heintio'r henoed. Yr oedd y Pandemig yma'n wahanol gan ei fod yn lladd gan fwyaf, oedran grŵp rhwng 18 a 45 oed.

**Pam y Ffliw Sbaenaidd?**

Bedyddiwyd y pla yn 'Ffliw Sbaenaidd' am y rheswm yn ystod y Rhyfel Mawr cafwyd sensoriaeth ar newyddion ar hyd a lled Ewrop heblaw am Sbaen oherwydd ei niwtraliaeth. Canlyniad hyn bod nifer o adroddiadau o Sbaen yn ymddangos yn y papurau newydd yn gyson am y teulu brenhinol ac aelodau o'r Llywodraeth yn dioddef. Hyd yn oed pan fu'r ffliw ar diroedd Fflandrys a Champagne yn y Rhyfel Mawr am amser helaeth cyn cyrraedd Sbaen, penderfynodd llywodraethau Ffrainc, America a Phrydain ei alw yn 'Ffliw Sbaenaidd'. i raddau, er mwyn hebrwng cyfrifoldeb o darddiad y feirws.

**Cymru a chysylltiad Lerpwl**

Faint fu farw yng Nghymru? Mae'r ffigyrau yn amrywio yn nôl y ffynhonnell. Rhai yn awgrymu bod y ffigyrau rhwng naw mil a deg mil o farwolaethau, rhai haneswyr yn honni bod y ffigyrau yn nes i unarddeg mil. I'w cymharu â ffigyrau Covid-19 mae'n weddol debyg, ond yr hyn sydd rhaid ei ystyried yw poblogaeth Cymru rhwng 1918 a 1919. Yn ystod y Pandemig hwn 'roedd dros 600,000 yn llai o bobl yn byw yng Nghymru, sef 19% yn llai.
Fel dinas bwysig yr oedd Lerpwl yn fan cychwyn honedig i ymlediad y feirws yng Ngogledd Cymru. Oherwydd symudiad poblogaeth cyson rhwng y blynyddoedd 1851-1911 ymfudodd ugain mil o Gymry i'r ddinas bob degawd. Bu llwybrau teithio yn brysur rhwng 'Prifddinas Gogledd Cymru' a Gogledd Cymru. Un ffactor yn ymlediad y feirws yn 1918 oedd y prif reilffordd rhwng Caergybi a Lerpwl ac yn ogystal y rheilffyrdd i'r trefi llai poblog. Gyda'r boblogaeth yn teithio'n gyson ar gyfer gwaith a milwyr yn teithio i Ffrainc, cafwyd cymysgedd o bobl oedd yn agored i'r feirws.

**Achos dioddefaint teulu**

Yn ardal Treffynnon yng Ngogledd-Ddwyrain Cymru cafodd un teulu ei effeithio'n fawr gan yr afiechyd. Er bod nifer o boblogaeth cefn gwlad y cyfnod yn manteisio ar diroedd dros yr Iwerydd, arhosodd y teulu Hughes yn eu cynefin. Nid oes tystiolaeth penodol yn awgrymu bod aros yng Nghymru wedi achosi i deulu fferm Gelli Fowler ddioddef yn waeth o'r Ffliw Sbaenaidd, gellir awgrymu yn hytrach bod yr ardal hon o Sir Y Fflint wedi dioddef yn enbyd. O ganlyniad, collodd teulu Gelli Fowler mam a phedwar o'i phlant i gyd o fewn pedwar diwrnod. Oedran y plant oedd rhwng 8 a 21 mlwydd oed.

Drwy hanes llafar cofiodd un o wyrion deulu Gelli Fowler David Watkins hanes ei nain;

Dwi'n cofio fy Nain, Anne Jane Hughes yn sôn amdano bob blwyddyn ar Chwefror 19fed. Collodd fy Nain ei brodyr a chwiorydd heblaw am un chwaer. Yr oedd fy nheulu yn grefyddol iawn felly fe fu hyn yn ysgytwad mawr. Yr oedd brawd fy Nain, Robert Henry yn dal yn fyw wrth ochr ei brawd oedd wedi marw yn yr un gwely. Soniodd fy Nain ei bod wedi colli ei gwallt a dannedd ar ôl y ffliw. Rhoddodd fy Nain ei doli ym medd ei chwaer fach.

Ychwanegodd bod y plant wedi methu mynychu angladdau'r brodyr a chwiorydd oherwydd eu salwch. Canlyniad y golled deuluol oedd gwerthu'r fferm, a'r plant yn cael eu magu gan weddill y teulu. Fe wnaeth nifer yn ddiweddarach adael y fro a mynd i weithio mewn ffatrioedd tecstiliau yn Wigan.

**Effaith hir-dymor**

Nid oes amheuaeth bod y Pandemig yn 1918 wedi cael effaith andwyol ar nifer fawr o deuluoedd, gyda rhai haneswyr yn honni bod 'bron bob tŷ wedi claddu rhywun annwyl'. Mae effaith tymor byr yn amlwg yn y ffigyrau a gyhoeddwyd yn fuan wedi'r Pandemig ddiflannu ar draws y byd tua chanol 1920. Dim oherwydd run brechiad ond i raddau 'Herd immunity' yn ogystal â'r feirws yn marw drwy'r cleifion.
Ond beth am yr effaith hir-dymor? Mae effaith ar y teuluoedd uchod wedi aros yn y côf ac i raddau wedi newid cwrs eu bywydau. Ar raddfa cenedlaethol a byd eang does dim amheuaeth mai hwn oedd y clefyd gwaethaf yn hanes dynoliaeth. Hyd yn oed yr effaith anuniongyrchol ar Yr Ail Ryfel Byd pan effeithwyd ar ganlyniad y Cytundeb Versailles. Mae haneswyr o'r farn bod Woodrow Wilson, Arlywydd America, yn 1919 ddim wedi llwyddo i leihau telerau cosb Yr Almaen wedi'r Rhyfel Byd Cyntaf oherwydd ei salwch (ffliw Sbaenaidd) ac felly bu cosb yr Almaen yn llym, a chanlyniad hyn oedd twf Natsiaeth.
Fel y Pla du mae digwyddiadau yr Ail Ryfel Byd yn rhan o gwricwlwm ysgolion, a gellir deall nad yw apêl y Ffliw Sbaenaidd yn darbwyllo 'na sbarduno Pwyllgorau Addysg. Fel yr awgrymodd Laura Spinney, 'bod niferoedd y bobl wnaeth farw ddim yn gwisgo lifrau soldiwr nac yn dangos anafiadau'. Yn hytrach, er bod Pandemig 1918 yn weddol arwyddocaol i haneswyr, yn enwedig ar ôl y saithdegau, mae dyfodiad Covid-19 wedi cynyddu yn sylweddol y diddordeb mewn hanes cymdeithasol, ac yn fwy perthnasol erbyn heddiw, hanes y Ffliw Sbaenaidd.

Charles Roberts

o.n
Os oes unrhyw un ar ôl darllen y darn uchod yn cofio hanes teuluol am y Ffliw Sbaenaidd mi fyddwn yn barod iawn i glywed gennych ar gyfer parhau fy ngwaith ymchwil.
Fy nghyfeiriad ebost yw: w.charles.roberts@hotmail.co.uk

# Cymdeithas Caledfryn







Gwilym Davies(Egryn) oedd y gŵr gwadd yng nghyfarfod mis Ionawr o Gymdeithas Caledfryn yn y King's Head, Llanrhaedr. Testun ei sgwrs oedd 'Gwaith y Crefftwr' a chawsom noson ddifyr a hwyliog yn gwrando a rhyfeddu at ei ddawn yn turnio coed a gwneud ffyn bugail. Roedd yr arddangosfa o'i waith yn rhyfeddol, yn cynnwys powlenni o bob math, gobledi pren, ffrwythau pren, clociau a llawer mwy.

Dechreuodd ei ddiddordeb yn Ysgol Caledfryn gyda Mr Edgar yr athro Gwaith Coed a chael defnyddio y turniwr 'Union' oedd yn y gweithdy. Prynodd ei durn(lathe)cyntaf ym Modelwyddan ac yna dechreuodd fynychu dosbarth nos ar Lannau Dyfrdwy yng nghwmni'r 'Deeside Stickmakers and Wood Carvers'.

Mae'n gweithio gyda pob math o goed ond un o'i ffefrynnau ydy'r ywen gan fod iddi raen da iawn. Yn ogystal mae'n hoff o'r dderwen, onnen, llafannen a'r laburnum.

Ar ddiwedd y noson cawsom gystadleuaeth chwarae ioio (wedi eu turnio gan Gwilym) a'r enillydd haeddiannol oedd Llifon gan ddangos dawn arbennig yn y rownd derfynol yn erbyn Graham.

Llywydd y noson oedd Henry Ames a diolchodd i Gwilym am ddod atom ac am noson mor braf. Y siaradwr gwadd yn y cyfarfod nesaf fydd Clwyd Wynne yn sôn am 'Gymeriadau Stryd Henllan'.

Gwelliannau Cartref DBP G.Cymru

DBP

DBP Limited / Denbigh Building Plastics Limited
Tŷ DBP, Ystâd Ddiwydiannol Colomendy, Dinbych, LL16 5TA
Ffôn : 01745 818849

Dewch am baned ac i weld yr ystafelloedd arddangos newydd, modern a chyfoes.

Diolch i'n cwsmeriaid am eu cefnogaeth dros y blynyddoedd ac edrychwn ymlaen at gyfarfod cwsmeriaid hen a newydd.

Ffenestri UPVC ac Alwminiwm, Ffenestri Sash,
Drysau Alwminiwm Cyfansawdd, Drysau Plygu Dwyffordd Alwminiwm,
Ystafelloedd Gwydr, Toeau Cawell, Portshys, Cynnyrch Roofline,
Systemau Bargod Sych, Toeau Firestone a Guardian.

## Difyrion Digidol Deian ap Rhisiart

**Fe soniais rai misoedd yn ôl am adnoddau hanes ar y We, a'r tro hwn, dwi am fwrw golwg fanylach a chanolbwyntio ar adnodd cwbl wych a chyfoethog sydd gennym trwy Casgliad y Werin Cymru.**

Y frawddeg agoriadol sydd yn eich croesawu i'w gwefan yw: "Rydyn ni'n dal ac yn dathlu cyfoeth hanes Cymru drwy gasglu profiadau pobl gyffredin." Dyma sy'n ganolog i'n treftadaeth fel cenedl, ac i waddol yr iaith Gymraeg. Mae'r wefan hon yn ffordd hawdd o gofnodi profiadau ac atgofion pobl o fewn ein cymunedau er mwyn gwarchod ein etifeddiaeth gyfoethog. (https://www.casgliadywerin.cymru/)

Mae yna sawl prif adran ar y wefan – gallwch olygu a chreu eitemau trwy Rannu, gellwch archwilio'r Casgliad, mae posib hefyd archwilio mapiau o wahanol o gyfnodau er dod o hyd i eitemau; gellir cael Cymorth ar sut i ddefnyddio'r Wefan ac yn olaf, mae'r adran addysg yno i ddarparu adnoddau gwerthfawr i ysgolion.

Fe drown yn gyntaf at olygu a chreu trwy'r adran Rhannu. I ddechrau, mae'n rhaid cofrestru er mwyn gallu ychwanegu eitemau (https://www.casgliadywerin.cymru/user/register). Mae'r eitemau yn gallu bod yn ddogfennau, delweddau, yn gardiau post, yn bamffledi, yn ffeiliau sain, yn fideo, yn lluniau cyfredol o henebion neu olion hanesyddol. Yr hyn y mae'r wefan yn ei ofyn amdano yw hanes atgofion pobl trwy eitemau ar ddelwedd, ar fideo neu ar sain. Y mae corff henebion Cadw yn gwarchod yr hanes fwy pell yn ôl fel ein hadeiladau hanesyddol a'n cestyll, tra fod Casgliad y Werin Cymru yn llenwi bwlch yn diogelu, ein hanes byw diweddar.

Tra yr ydym wedi trafod uwchlwytho eitemau at greu'r casgliad, mae'r adran Casgliad wrth gwrs yn caniatau i unrhywun archwilio'r casgliad. Dyma lle mae'r cyfoeth o eitemau difyr ofnadwy yn dod i'r golwg. Mae yna dros 154,000 o eitemau yn y casgliad. Mae'r amrywiaeth o eitemau yn anferth ac fe ellir chwilio trwy'r casgliad fesul thema megis Celfyddydau a Diwylliant, Cymuned a Chymdeithasol, Diwydiant a Masnach, Amgylchedd ffisegol ayyb. Gellir hefyd archwilio trwy gasgliadau unigol y ffotograffydd enwog Geoff Charles, hefyd archwilio trwy storiau sydd wedi'u dethol fel taith o amgylch ardal. Ymhlith yr archif, er enghraifft ceir cerdyn post o Eglwys Cybi, Caergybi, Ynys Môn o'r 1920au; llun o'r Aes yng Nghaerdydd ym 1910; Detholiad o'r cyfansoddiadau buddugol yn Eisteddfod Llanelli, 1865 a llawer, llawer mwy.

Mae'r adran Mapiau yn caniatau i chwi chwilio am eitemau yn ôl lleoliad. Mae yna opsiwn hefyd i chwilio trwy wahanol fapiau yn mynd yn ôl i fap 1868-1892 ynghyd â mapiau'r Degwm!

Mae yna bob math o ffilmiau yn croniclo atgofion pobl yma. Beth y mae'r Eisteddfod yn olygu i chi yw un cyfres o ffilmiau yn holi gwahanol bobl. I ddweud y gwir, mae'n anodd meintioli holl gyfoeth y wefan yma mewn ychydig eiriau. Yr hyn yr wyf yn eich argymell yw i fynd a chwilota eich hun. Yn sicr, fyddwch chi yma am amser hir!!


Yr ydym fel rhaglen Cymunedau Digidol Cymru wedi bod yn trafod cydweithio gyda Casgliad y Werin ac mae yna gynlluniau i gynnal cyrsiau Straeon Digidol a sesiynau cyflwyno i wefan Casgliad y Werin mewn llyfrgelloedd ar hyd a lled Cymru. Mae creu Straeon Digidol yn llawer haws heddiw, nag oedd hi ddeng mlynedd yn ôl, mae popeth bellach mor hawdd trwy dabled neu ffôn clyfar. Ac mewn byd lle mae pethau'n symud mor gyflym, mae'n holl bwysig cofnodi profiadau ac hanesion pobl cyn iddynt fynd yn angof. Ewch draw i'r wefan i bori drwyddi ac mae'n bosib y gwelwch chi gyfle i gofnodi ryw hanesyn am eich teulu, neu eich hardal leol. Os hoffech chi gynnal sesiwn hyfforddiant Straeon Digidol yn eich hardal, cysylltwch â mi deian.apRhisiart@cwmpas.coop



Llun a dynnwyd o gwmpas 1960


**Glyn Evans Autoclinic** Ltd

Atgyweirio ceir ~ Accident repairs



Colomendy Industrial Estate, Dinbych LL16 5TA

Tel : (01745) 815141 repairs@evansautoclinic.com



**Cynghorwyr Sir Ddinbych**
**Eich Cynghorwyr Plaid Cymru**



Rhys Thomas - Dinbych Isaf
Delyth Jones - Dinbych Caledfryn a Henllan
Elfed Williams - Llanrhaeadr-yng-Nghinmeirch

Mae ein manylion cyswllt i gyd ar safle wê y Cyngor Sir

# CORNEL Y DYSGWYR
## Dathlu Santes Dwynwen

Dwi wedi bod heibio Dinbych sawl tro ond dwi ddim yn nabod y dre o gwbl. O'r diwedd mi ddoes i o hyd i Gapel Mawr, ond yn methu ffeindio'r fynedfa i'r adeilad mawr. Es i lawr i'r Banc Bwyd a dywedodd dynes wrtha i fod y lle ar gau. O diar!
Wedyn yn sydyn mi glywes i sŵn 'Calon Lân' yn dod o'r festri. Gwych!
Dringes i fyny at y festri a thu ôl i'r llenni trwchus roedd ystafell gyda thua chant o bobl yn canu a sgwrsio ac yn yfed te a bwyta cacen.
Roedd yn fendigedig ac mi dreulies i ddwy awr yn yfed te a sgwrsio efo ffrindiau newydd heb sôn am fy ngwobr raffl. Am brynhawn bendigedig!
Mi wnes i fwynhau'r pnawn, roedd y bwyd yn flasus iawn ac roedd y brechdanau a'r cacennau yn fendigedig. Yn y pnawn canon ni Calon Lân, Yma o Hyd ac Mae'n wlad i mi. Roedd y Parch Andras Iago yn cyfeilio.
Diolch am y croeso!




/gwasg.com PRINT
ARGRAFFU
DYLUNIO GRAFFEG
PAPUR PENNAWD › CARDIAU BUSNES
LLYFRYNNAU › POSTERI
TAFLENNI › PAMFFLEDI
BANERI › BANERI RHÔL › FFLAGIAU
ARGRAFFU O FFEIL › SCANIO I FFEIL
ARGRAFFU FFORMAT BRAS
ARGRAFFU CYNLLUNIAU
LAMINEIDDIO › RHWYMO
Cefn 24 Stryd Elwy, Y Rhyl LL18 1BP
01745 331411 | info@gwasg.com | www.gwasg.com
GwasgPrint


# Dathlu Santes Dwynwen gyda Bronwen

Ar ôl penderfynu y byddai'r digwyddiad yn gyfle da i ymarfer fy Nghymraeg, cyrhaeddais festri Capel Mawr dipyn ar ôl dau i ddarganfod yr ystafell bron yn llawn o bobl yn barod.
Mi dalais y tâl mynediad ac mi brynais i docynnau raffl a gwelais rhai o ddosbarth Nerys Ann ar fore dydd Mercher ac ymunais â nhw.
Heb flewyn ar fy nhafod, mewn ugain munud roedd yr ystafell yn gorlifo efo pobl ac estynnwyd mwy o fyrddau a chadeiriau i alluogi pawb i eistedd i lawr.
Roedd yna lawer o sgwrsio, mi gwrddais i bobl o'r dosbarth am y tro cyntaf ers y clo!
Roedd y brechdanau a'r cacennau yn flasus efo llawer o baneidiau.
Wedyn efo Andras ar y piano mi wnaethon ni ganu Calon Lân. Yma o Hyd yn uchel. Dwi'n siŵr bod y rhan fwyaf o Ddinbych wedi ein clywed ni.
Ar ôl y raffl hiraf yn y byd, oherwydd bod cymaint o wobrau. Gadewais i'r festri fel y gôg ar ôl prynhawn difyr iawn. Diolch i Nerys Ann am drefnu.



# Cornel y Plant

16 = du
15 = brown
14 = lliw croen
13 = melyn
12 = coch
11 = llwyd









# Llwyddiant i Fenter Iaith Sir Ddinbych mewn digwyddiad

Mae Menter Iaith Sir Ddinbych wedi derbyn gwobr genedlaethol yn nigwyddiad Dathlu'r Mentrau Iaith am eu gweithgareddau Minecraft a Lego i blant a phobl ifanc.

Mewn digwyddiad arbennig yn y Deml Heddwch yng Nghaerdydd i ddathlu gwaith y mentrau iaith sy'n hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ledled Cymru, daeth cyfle i'r elusen, sy'n gweithio yn Sir Ddinbych, rannu hanes eu cynllun ac ymfalchïo yn eu llwyddiant o dderbyn y wobr.

Yn ôl Ruth Williams, Prif Swyddog Menter Iaith Sir Ddinbych: "Rydyn ni, fel tîm, yn falch iawn o lwyddiant y cynllun ac mor ddiolchgar o gael ein cydnabod yn y gwobrau cenedlaethol hyn. Roedd hi'n braf iawn i dri ohonom gael mynychu seremoni fawreddog yng Nghaerdydd a chael clywed ein bod wedi dod i'r brig!

"Daeth prosiect Bocs Trysor i fodolaeth yn ystod clo mawr y pandemig pan welwyd y cyfle i weithio yn ddigidol trwy'r Gymraeg er mwyn cyrraedd at blant a phobl ifanc yn ddiogel."

Gyda nawdd o gronfa'r Loteri Treftadaeth, llwyddwyd i ddatblygu peilot gweithgareddau Minecraft gyda phlant er mwyn parhau i gynnig cyfleoedd chwarae trwy gyfrwng y Gymraeg.

"Mae hyrwyddo treftadaeth lleol yn dod â'i cynefin yn fyw," eglura Ruth Williams. "Trwy dderbyn y nawdd, dyma gyfle i ni ddatblygu'r peilot a chreu adnodd a oedd yn cyflwyno hanes lleol, treftadaeth ei milltir sgwâr i blant a phobl ifanc.

"Trwy chwarae a chymdeithasu o fewn y gweithdai Lego a Minecraft yn ddigidol ac yn nes ymlaen mewn sesiynau wyneb yn wyneb, roedden ni'n gallu cynnig darpariaeth cymdeithasol oedd yn apelio at y plant trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae derbyn cydnabyddiaeth am y gwaith yn dod â balchder mawr i ni gyd"

Mae'r cynllun Bocs Trysor wedi sicrhau bod dros 600 o blant a phobl ifanc wedi dod â Chastell Dinas Brân, Tref gaerog canoloesol Dinbych,
Pentre Capel Celyn,
Tref farchnad Rhuthun
a sawl lleoliad hanesyddol arall yn y sir yn fyw oddi fewn i'r gemau

Fel rhan o'r gwaith datblygu, bu'n rhaid i'r Fenter fuddsoddi mewn offer digidol a hyfforddiant i ddefnyddio 'servers' penodol ar gyfer Minecraft, gan gysylltu â nhw ar ddyfeisiadau gwahanol a throsglwyddo gwybodaeth yn hwylus i bawb gyrraedd at y dechnoleg.

Ychwanegodd Gwion Tomos-Jones, swyddog Plant a Phobl Ifanc y Fenter: "Y gwir ydi erbyn hyn, y gallwn ni gynnal gweithdai mewn mwy o leoliadau hanesyddol fel cestyll neu ar ben bryngaerau Bryniau Clwyd, i gynnig profiad uniongyrchol o ardal neu leoliad hanesyddol i bobl ifanc. Gyda chefnogaeth ariannol pellach, does dim rhwystrau".

Yn ôl Cadeirydd Menter Iaith Sir Ddinbych, Arwel Roberts: "Mae'r Bocs Trysor wedi llwyddo oherwydd syniadau beiddgar ac ysgogiad staff y Fenter a gyllidir gan Llywodraeth Cymru a'r cydweithio ariannol gan y Loteri Treftadaeth.

"Rydym yn ymfalchïo bod y criw bach o staff wedi derbyn y wobr genedlaethol hon am eu gwaith gan sicrhau adnodd credadwy a llwyddiannus sy'n hawdd i'w efelychu mewn ardaloedd eraill.


"Roedd derbyn clod a diddordeb Gweinidog y Gymraeg, Jeremy Miles yn y cynllun nôl ym mis Mai 2022 ar faes Eisteddfod yr Urdd, hefyd yn gydnabyddiaeth o ddyfesigarwch y criw. Llongyfarchiadau mawr i bawb."



Ifan yn ailgreu Brodordy


Lego—Tref Gaerog


Lego—Lyfrgell Dinbych


Castell Dinbych


## Atebion CHWEFROR 2023

**Ar Draws :**
1. Elgan
4. Amcanbris
9. Isymwybod
10. Romeo
11. Sgwrsio
12. Stordy
14. Amrantiad
16. Nai
18. Epa
20. Bachgendod
24. Meilir
25. Epistol
28. Lodes
29. Eithriadol
30. Môr-forwyn
31. Larfa

**I Lawr :**
1. Elips
2. Gwylwyr
3. Nawddsant
4. Arbrofi
5. Cydosod
6. Nerthol
7. Ramadan
8. Siom
13.Sied
14. Awel
15. Adda
17. Newidiol
19. Agendor
20. Berfenw
21. Chwerthin
22. Datodwr
23. Closio
26. Lolfa
27. Fflam

**Cofiwch** bod y llythrennau **ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh** a **th** yn mynd i un blwch

## CROESAIR MAWRTH 2023




**Ar Draws :**
9. Deuawd, triawd, ...
10. Gwaith llenyddol i actorion ei pherfformio
11. Heb nerth (2-3)
12. Sefydliad addysg uwch
13. Pelennau bychain o wydr
14. Nid Gog!
16. ee Senghenydd
18. Rhew, ..., ager
19. Gwin o Sbaen
21. Galarus
22. Trist
24. ee C fwyaf neu A leiaf
26. Saws Eidalaidd yn cynnwys garlleg a brenhinllys
27. Tyfiant trofannol
28. Taflu golau yn ôl

**I Lawr :**
1. Clefyd heintus ac ymledol
2. ee Iolo Williams
3. Cymeradwyaeth
4. Rhagorol
5. Llyfr hanfodol i fardd
6. Bwlch mewn wal
7. Trosglwyddo gwres neu drydan
8. Y ...... Du, 16ad arall
15. Un sy'n meddiannu trwy drais
17. Epa o fforestydd Borneo
18. Y gallu i effeithio ar feddwl rhywun arall
20. Gwyllt a di-drefn
21. Nid asid
22. Gwahanu i grwpiau
23. Teclyn torri gyda dau lafn
25. Gwlad rhwng Twrci ac Iran






# Yr Etifeddiaeth Goll – Dr Eiddwen Jones



Dr Eiddwen Jones, awdur sawl nofel Gymraeg a Saesneg, ac un o'n haelodau mwyaf blaenllaw, oedd y ddiweddaraf i ddiddanu Cylch Llenyddol Glannau Clwyd ddechrau mis Chwefror.

Go brin y byddai llawer iawn ohonom y dyddiau hyn yn ystyried Sir y Fflint yn gadarnle i'r Gymraeg. Ond cawsom bortread byw a hynod ddiddorol gan Eiddwen o gymdeithas glòs pentrefi diwydiannol dosbarth gweithiol gogledd ddwyrain Cymru a oedd, tan ganol y ganrif ddiwethaf ac o fewn cof, yn fwrlwm bywiog o ddiwylliant Cymraeg a Chymreig. Fe'i gynhaliwyd, i raddau helaeth, gan gapeli Cymraeg a thafarndai ffyniannus yr ardal.

Mae Eiddwen yn awdur chwe nofel Gymraeg a Saesneg, a'r mwyafrif ohonynt wedi eu gosod yn yr ardal. Dywedodd wrthym i'w diddordeb mewn hanes ac adrodd straeon gael ei gynnau gan hen fodryb a chymdoges o'r enw Seffora a feddai ar ddawn dweud straeon ei hun. Cafodd y diddordeb hwn ei feithrin ymhellach wrth i Eiddwen ddarllen gwaith a chael ei hysbrydoli gan awduron Cymreig eraill megis Catrin Collier ac Alexander Cordell wnaeth bortreadu pentrefi glofaol y de, ac yng ngogledd Cymru, awduron megis Kate Roberts, Brenhines enwog ein Llên, Caradog Prichard, ac yn fwy diweddar, Eigra Lewis Roberts, Gwenan Pritchard Jones ac yn fwy diweddar fyth, Meinir Pierce Jones.

Soniodd Eiddwen hefyd am Daniel Owen, tad y nofel Gymraeg a fu'n ddigon dewr i arloesi mewn cyfnod pan oedd y capeli'n gwaredu rhag creu ffuglen, ac am yr awdur toreithiog, ac efallai nofelydd mwyaf Cymru erioed, Emyr Humphreys o Drelawnyd a ysgrifennai hefyd yn Gymraeg a Saesneg, T Wilson Evans a'i frawd Einion, ac Emlyn Williams, awdur 'The Corn is Green'. Cyfeiriodd Eiddwen hefyd at waith y naturiaethwr a'r awdur toreithiog, Thomas Pennant, a groniclodd hanes plwyfi Chwitffordd a Threffynnon, bro ei febyd, cyn ei farw ar ddiwedd y ddeunawfed ganrif. Enwogion eraill o'r ardal a enwyd ganddi oedd Moses Griffith, yr arlunydd, ag T .I. Ellis, awdur Crwydro Sir y Fflint.

Cawsom hefyd dipyn o hanes Sir y Fflint, y lleiaf o'r tair ar ddeg o siroedd hanesyddol i'w sefydlu gan Harri'r 8fed yn sgil Deddf Uno 1536. Y meysydd glo a'r gweithfeydd haearn a gynhaliodd y cymunedau am ganrifoedd, ynghyd â'r porthladdoedd bach a mawr a sefydlwyd i gludo'r glo a'r haearn i ddociau Lerpwl, y melinau papur a'r gweithfeydd mwyn, yn ogystal â'r diwydiant amaeth. A phe bae unrhyw un, erbyn diwedd y ddarlith, yn amau i'r ardal fod yn fwrlwm o ddiwylliant Cymraeg, does ond angen edrych ar fap o Sir y Fflint i weld y cyfoeth o enwau Cymraeg sy'n ei fritho.

Yn wir, roedd afiaith a brwdfrydedd Eiddwen am y gornel hon o Gymru mor heintus, bydd yn siwr o fod wedi tanio chwilfrydedd nifer fawr ohonom a'n hysgogi i fanteisio ar y cyfle i grwydro'r ardal a'r gymdogaeth ddirgel hon drws nesaf i ni, er mwyn datgelu mwy o'i thrysorau.

Mae un cyfarfod o raglen bresennol y Cylch eto i ddod ac ar 3 Ebrill, byddwn yn croesawu Meinir Pierce Jones, awdur Capten, nofel fuddugol cystadleuaeth Daniel Owen 2022 yn Eisteddfod Tregaron. Pwnc Meinir fydd 'Sgrifennu Nofel Hanes' ac mae hi wedi addo dod â rhai o'r creiriau teuluol sy'n gysylltiedig â'r nofel efo hi i'r gynulleidfa gael eu gweld a'i holi amdanynt. Felly cofiwch ddod draw i Gapel Trefnant (LL16 5UG) erbyn 7pm nos Lun, 3 Ebrill – os nad ydych wedi ymaelodi eleni, cewch dalu £4 wrth y drws.



# Crud Y Gymraeg

Pa ardal yn Ninbych a fyddech chi'n ystyried yr un fwyaf Cymreig o ran iaith bob dydd ei thrigolion?
Parc Myddleton efallai? Ffordd Rhuthun o bosib'? Ffordd Y Rhyl neu ardal Y Brwcws? Colomendy neu Drewen???
Na, dydy hynny ddim yn wir am yr un o'r mannau hyn yn ôl ystadegau Cyfrifiad 2021, ond yn hytrach yr un sydd ar frig y rhestr ydy' Crud y Castell gyda 55% o'r boblogaeth yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu yn y Gymraeg.
Llongyfarchiadau felly i ddinasyddion y rhan honno o'r dref am ddod yn rhif 1 yn y siartiau.... gydag ychydig o eiddigedd ynghlwm wrth hynny. Derbyniwch ddymuniadau gorau'r Bigwn, ac os ydych chi'n derbyn a darllen eich papur bro lleol ceisiwch ledaenu'r neges am ei fodolaeth ymhlith eich cymdogion.
Gyda chwithdod a gofid rhaid cydnabod y bwlch mawr o ran canrannau sydd rhwng gwaelod y dref a rhan uchaf y dref. Yn anffodus, y mae'r canran o drigolion yn hen ran Dinbych yn sylweddol is gyda llai nag 20% yn gallu cyfathrebu yn y Gymraeg.
Ond diddorol fyddai cael gwybod oedd yna rai o'n cyd-drigolion nad oedden nhw'n ystyried eu Cymraeg yn ddigon da i nodi ar y ffurflen fod ganddyn nhw afael ar yr iaith. Dyna fel y bu hi yn y gorffennol.
O ran Cymru gyfan Llanrug, ger Caernarfon, oedd â chanran uchaf o siaradwyr Cymraeg – dros 80% o'r boblogaeth yn hyddysg yn yr iaith. Yn y pentref hwnnw y derbyniais fy addysg uwchradd, ac rwy'n siwr yr adeg honno bod dros 99.5% o'r disgyblion yn rhugl yn y Gymraeg.
Ynghanol yr wythdegau mae gen i gof o fynd drwy ddrws Co-op y pentref a chlywed Radio Cymru yn atseinio drwy'r lle. Wythnos Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd oedd hi ac roedd disgyblion yr ysgol gynradd leol yn cystadlu.
" Ydyn nhw wedi cael llwyfan?" oedd y cwestiwn ar wefusau un o'r siopwyr.
Dydwi ddim yn gweld hynny yn digwydd yn Ninbych, ond braf fyddai clywed caneuon Cymraeg dros sustem sain ein harchfarchnadoedd ar ddiwrnod Santes Dwynwen a Gŵyl Ddewi ac, wrth gwrs, carolau yn y cyfnod cyn y Nadolig. Ai ein lle ni ydy' roi pwysau arnyn-nhw drwy gychwyn ymgyrch?
..........................................................................................


Gan fy mod i am fod yn hael gyda fy nghyfarchion y mis hwn, rhaid imi dd'eud fy mod wrth fy modd fod Centrica, y cwmni ynni, wedi datgan iddyn nhw wneud elw o 3.2 biliwn o bunnoedd yn ystod 2022 er i rai o'u cwsmeriaid orfod rhynnu y gaeaf hwn am na fedren nhw fforddio talu am nwy a thrydan.
Ond, dyna fo, maen nhw angen yr arian er mwyn darganfod dulliau o gynhyrchu egni a fydd yn llai niweidiol i'r blaned. Hefyd mae angen llogau hynod o ddeniadol er mwyn plesio'r rhai sy'n berchen ar gyfranddaliadau.
Serch hynny, dim ots am y rhesymau/esgusodion uchod, y mae 3.2 biliwn o bunnoedd yn swnio'n hynod o farus, hunanol ac anfoesol.
..........................................................................................

Ac o sôn am hunanoldeb ac anfoesoldeb, wrth wylio rhaglen ar sianel fasnachol yn ddiweddar fe'm trawodd yn rhyfedd iawn yr arlwy o hysbysebion a gafwyd.
Ynghanol apêl am gyfraniadau tuag at drigolion Twrci a Syria a wnaed yn ddi-gartref gan y daeargryn erchyll yn ddiweddar a phobl sy'n llwgu oherwydd rhyfel cartref yn Yemen, cafwyd hysbyseb hwyl a sbri ar gyfer y Loteri Côd Post.
Roedd yna luniau o bobl mewn stryd arbennig ym Mhrydain wedi ennill rhai degau o filoedd o bunnoedd, ac fe allech chi fod y bobl nesaf i wneud eich ffortiwn a mwynhau bywyd braf, oedd byrdwn yr hysbyseb.
A, wel, mae'n rhaid edrych ar ôl chi eich hun yn y byd yma. Dyna mae'n debyg ydy'r ddihareb a barchwn fwyaf.

**Stan Lyall**

Snow In Summer
33 Stryd y Dyffryn, Dinbych
LL16 3AH
Siop leol yn gwerthu cardiau, anrhegion a phethau vintage
DenbighSnowInSummer
@Snowinsummer_shop
@snowinsummer33



MALDWYN WILLIAMS
Ffordd y Rhyl, Dinbych

Ffôn:01745 812542
DARNAU I BOB MATH O GEIR
STÔRS: 813840
GORSAF MOT
GOLCHFA CEIR

GWERTHU CEIR A CHERBYDAU 4 X 4
Ffôn:01745 814647
maldwynwilliams@garageservices1.fsnet.co.uk

Trefnwyr Angladdau Annibynnol
R.W.Roberts a'i Fab
Gwasanaeth personol a gofalgar, Ddydd a Nos
Capel Gorffwys breifat yn Ninbych ac yn ein swyddfa newydd yn Abergele
Gorffwysfa, Ffordd Ystrad, Dinbych, LL16 4RH
Ffôn: 01745 812935
Ffacs : 01745 817303
E:rwroberts.gorffwysfa@gmail.com
Plas Tirion, Kinmel Avenue, Abergele, LL22 7LW
Ffôn: 01745 827777
Ffacs : 01745 827750
E: rwroberts.abergele@gmail.com
www.rwrobertsandson.co.uk
Golden Charter Funeral Plans
NATIONAL SAIF INDEPENDENT FUNERAL DIRECTORS

# Ysgol Twm o'r Nant

Mae'r hanner tymor wedi gwibio heibio a phawb yn barod am wyliau wrth i ni ysgrifennu hwn.
Bu'r cyngor ysgol yn brysur yn trefnu gweithgareddau wythnos llês a iechyd meddwl plant.
Cawsant hefyd fynd am dro i ymweld a Siamber Cyngor Dinbych. Cawsant groeso cynnes gan y maer ac ambell gynghorydd a swyddogion yno. Roedd y plant wrth eu boddau yn cael eistedd yng nghadair grand y maer.



<u>Uned dan 5</u>




Wel am hanner tymor bach prysur a gawsom! Mae'r plant wedi bod yn chwilio am adar bach yn yr ardal tu allan fel rhan o her yr RSPB. Mae gennym Robin Goch fach sydd yn dod i ymweld yn aml yn yr ardd.





Cawsom ddathliadau Blwyddyn Newydd Tsieineaidd. Roedd bwyta nŵdls gyda chop sticks yn dipyn o gamp! Cawsom hefyd gyfle i ysgrifennu enw mewn Mandarin.






Yn ystod Chwefror 6-12 roedd hi'n Wythnos Iechyd Meddwl Plant, cawsom nifer o weithgareddau i hybu pwysigrwydd iechyd meddwl. Aethom am dro, chwarae gemau bwrdd, mynd ar y beics a chreu cadwyni papur a oedd yn pwysleisio pwysigrwydd cysylltu gydag eraill. Cawsom hefyd ddod i'r ysgol mewn gwisg wirion neu ddillad sy'n ein gwneud ini deimlo'n hapus. Diolch i Penri a Mari Elin sydd yn ein cynrychioli yn y cyngor ysgol am rannu ei syniadau gyda ni.
Ar ddydd Gwener, Chwefror y 10fed, cawsom hefyd gyfle i wrando ar gerddoriaeth Cymraeg a chael disgo ar fuarth yr ysgol yn ystod Diwrnod y Miwsig.

<u>Uned dan 7</u>



Ynglwm â'n thema 'Antur Natur' mae'r plant wedi bod yn chwilfrydig iawn ac y awyddus i ddysgu am adar yn benodol yn ystod y hanner tymor diwethaf. Cawsom ymweliad difyr gan Islwyn a'i adar, roedd y plant wrth eu bodd yn gweld a dysgu mwy am y tylluanod.






Dathlwyd Diwrnod Santes Dwynwen a Dydd Miwsig Cymru yn ystod y hanner tymor hefyd ble bu’r plant yn creu cardiau ac yn mwynhau gwrando ar amrywiaeth o gerddorddiaeth Cymraeg. Braf oedd gweld y plant yn mwynhau artistiad cyfoes a rhai mwy traddodiadol.

Cefnogwyd Wythnos Iechyd Meddwl Plant hefyd drwy greu cadwyn cyfeillgarwch, cynnal mwy o ddysgu yn yr awyr agored a gorffen yr wythnos gyda ‘Diwrnod Gwisg Gwirion’, wedi ei drefnu gan aelodau’r Cyngor Ysgol.

Maen’t wedi bod yn brysur yn creu porthwyr bwyd ar gyfer adar yr ardd ac yn ysgrifennu cyfarwyddiadau sut i wneud hyn. Aethant ati i gasglu data hoff aderyn plant eu dosbarthiadau a datblygu eu sgiliau technoleg wrth gofnodi eu canlyniadau mewn siart ar y cyfrifiadur. Rydym wedi bod yn dysgu am fryniau Clwyd ac yn efelychu gwaith yr atrtist lleol, Elysteg.







Diolch i’r GRhA hefyd am gynnal noson ffilm, roedd y plant wedi mwynhau cael cŵn poeth ac aros ar ol ysgol. Pa ffordd well i orffen hanner tymor prysur o waith.




**Siop Clwyd**
33 STRYD FAWR, DINBYCH LL16 3HY
01745 813431
Llyfrau, Cardiau
Crynoddisgiau a Chrefftau
siopclwyd@yahoo.co.uk





Uned dan 9






Yn ystod ein Wythnos Lles a Iechyd Meddwl Plant cawsom gyfle i wneud amryw o weithgareddau. Aethom am dro ac yna cawsom gyfle i chwarae yn y parc. Gwnaethom gadwyn hir yn dangos sut oedden ni i gyd yn cysylltu gyda'n gilydd. Ar ddiwedd yr wythnos, daeth staff a plant i'r ysgol yn gwisgo rhywbeth gwirion neu ddillad a oedd yn gwneud nhw yn hapus.

Gan mai teithio yw ein thema, rydym wedi bod yn edrych ar daith bywyd gan ofyn i blant yr uned ddod â lluniau ohonynt yn fabi i'r ysgol. Cawsom hwyl yn ceisio dyfalu pwy 'di pwy a gweld sut oedd pawb yn edrych pan oedden nhw yn fabi.








Mae blwyddyn 3 wedi mwynhau sesiynau ioga yn eu gwersi addysg gorfforol. Maen't i gyd yn llawer iawn mwy ystwyth nawr ac yn gwybod pam fod anadlu yn ddwfn ac ymlacio yn dda i'r ymennydd. Dechreuodd blwyddyn 4 eu sesiynau yn nofio ym mhwll nofio Dinbych.




Llongyfarchiadau mawr i Anni Beca a ddaeth yn fuddugol yng nghystadleuaeth creu poster ar y thema 'Beth sy'n gwneud chi yn hapus?' Daeth cadeirydd Cyngor Sir Ddinbych Mr Arwel Roberts i'r ysgol i gyflwyno  gwobr a thystysgrif iddi. Gwych Anni Beca!




Gan fod diwrnod crempog yn syrthio yn ystod hanner tymor eleni, bu'r plant yn brysur yn gwneud crempogau wythnos ynghynt. Roeddent yn flasus iawn a phawb wedi mwynhau. Roeddem yn lwcus iawn bod yr un wedi llosgi!





**<u>Uned dan 11</u>**

Wel yn wir! Mae hi wedi bod yn amser prysur iawn yn yr Uned dan 11. I gychwyn hoffwn longyfarch tîm cwis yr ysgol ar eu llwyddiant ar ddod yn fuddugol gyda'r cwis sirol. Rydym yn dymuno pob hwyl iddyn nhw yn y rownd nesaf yn Nghwis Menter Iaith Cymru.

Roedd yr uned ychydig yn ddistaw y tymor hwn…neu yn ddistawach nag arfer ddylwn i ddweud? Cafodd disgyblion blwyddyn 6 fodd i fyw ar eu taith breswyl i Langrannog! Roedd pob math i stori yn dod yn ôl am eu hanturiaethau. O Cartio-cyflym i sgio, roedden nhw wedi cael llond bol o chwerthin. Er hynny...dydw i ddim yn siŵr pa blant fwynhaodd fwyaf, y rhai mawr neu'r rhai bach...

Wedi i flwyddyn 6 ddod yn ôl i fwrlwm yr ysgol roedden nhw wrth eu boddau gyda'r clwb drama sydd newydd gychwyn ar ôl ysgol i ymarfer eu sgiliau perfformio a gwneud stumiau! (handi iawn gyda'r eisteddfod  rownd y gornel).

Roedd y disgyblion hefyd yn brysur yn cystadlu yn y twrnament athletau o dan do. Ac yn wir i chi, roedden nhw'n dangos eu dawn yn arbennig. Roeddwn i'n blino ond yn eu gwylio nhw! Da iawn wir i bawb am gystadlu. Rwan, ymlaen i ymarferion yr Eisteddfod....

....

HUW VAUGHAN JONES
Arlunydd, Cartwnydd

Dewis da o luniau du a gwyn a lliw ar gael am bris rhesymol. Adeiladau, anifeiliaid, tractorau, ceir, blodau, coed a.y.b. Neu beth am lun arbennig o'ch dewis chi ar gyfer achlysur arbennig. Lluniau o bob maint

Cysylltwch â Huw ar
01745 812184

# YSGOL GLAN CLWYD

**.Clwb Natur a'r Clwb Sŵ**

Mae'r ddau glwb wedi uno dros dro er mwyn cymryd rhan mewn sesiwn casglu data ar gyfer y WWF. Mae WWF ac Arolwg Antarctig Prydain wedi gofyn i'r cyhoedd ddod yn 'dditectifs walrws' a helpu i gyfrannu at wyddor cadwraeth trwy chwilio am walrws a'u cyfrif yn y miloedd o ddelweddau lloeren a dynnwyd o'r gofod. Mor falch ydym fod y disgyblion wedi cyfrannu at wyddor cadwraeth ac wedi dechrau datblygu sgiliau allweddol. Go dda chi!

**Cystadlu yn Orlando**

Dyna fydd hanes Alyssa Faith Dean bl 8 sydd wedi'i dewis i gynrychioli Prydain mewn cystadleuaeth 'Royal International Miss Competition' sydd i'w chynnal yn Orlando yng Ngorffennaf. Fel rhan o'r gystadleuaeth bydd yn rhaid iddi siarad yn gyhoeddus, creu cysylltiadau a phwysleisio yr holl waith da mae hi yn ei wneud o fewn ei chymuned.



**Llwyddiannau'r adran Addysg Gorfforol**

Bu nifer o lwyddiannau gan ddisgyblion yr ysgol mewn gemau diweddar. Curodd tîm pêl droed merched dan 15 Ysgol Syr Hugh Owen 5-2 yn rownd yr 16 olaf Cwpan Cymru a byddant yn chwarae yn erbyn Ysgol Brynrefail yn y rownd nesaf.

Daeth tîm pêl rwyd dan 16 a dan 18 yr ysgol yn bencampwyr Sir Ddinbych ac yn 3ydd yng nghystadleuaeth Gogledd Ddwyrain Cymru yng nghwpan Ann Smart a chwpan y llywydd.

Cynrychiolodd tîm rygbi bechgyn bl 10 yr ysgol yn nhwrnament rygbi y sir gan chwarae pedair gêm a heb golli'r un!

A bu merched blwyddyn 8 yn cystadlu yn nhwrnament pêl-rwyd yr Urdd Gogledd Cymru gan ennill un gêm.

**Ymuno â'r Morwyr Brenhinol**

Llongyfarchiadau mawr i Zak Parker, bl12 ar gael ei dderbyn i'r Morwyr Brenhinol.

Fe fydd Zak yn cychwyn ei hyfforddiant ddechrau Chwefror. Pob dymuniad da iddo!

**Cyfrannu erthygl i'r Cymro**

Mae dwy o'n disgyblion o'r chweched dosbarth sy'n astudio Cymraeg Safon Uwch, sef Mared Williams bl13 a Bethan Thomas bl12, wedi rhoi eu doniau ysgrifennu ar waith ac wedi cyfrannu erthygl fywiog a chyfoes i bapur newydd Y Cymro, yn y golofn i ohebwyr ifanc. Mae'r Cymro bellach ar lein, ac felly cadwch olwg am fwy o gyfraniadau gan ein disgyblion ar y wefan ycymro.cymru

Yn olaf, llongyfarchiadau mawr i Gabriella Keyes bl7 ar ennill gwobr arbennig ym maes gymnasteg dros Ogledd Cymru.

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 8 | | 7 | 4 | | 5 | 1 | | 9 |
| | 2 | 3 | | 8 | | 6 | 7 | |
| | 9 | | | | | | 8 | |
| | 8 | | | 6 | | | 4 | |
| | | | 2 | 7 | 4 | | | |
| | 1 | | | 9 | | | 5 | |
| | 5 | | | 1 | | | 2 | |
| | 4 | 9 | | | | 7 | 1 | |
| 1 | | 6 | 8 | | 2 | 3 | | 5 |

Gwefr heb Wifrau

# AMGUEDDFA RADIO

Dilynwch ni ar flickr Cwmulus https://cwmulus.org/

**Digwyddiadau: Darlith**

Roedd bron i 100 o bobl yn gwylio Fiona Gale MBE, cyn-Archaeolegydd y Sir, yn sgwrsio arlein am **Reilffordd Dinbych, Rhuthun a Chorwen yn Nyffryn Clwyd**, gan ffocysu yn arbennig ar waith diweddar yn Rhuthun. Dyma ein cyfanswm uchaf o wylwyr hyd yn hyn ac roeddent yn cynrychioli cymdeithasau Cymraeg, cymdeithasau Hanesyddol a chymdeithasau Rheilffordd o Gymru, Lloegr a'r Alban, yn ogystal â phobl leol. Rhoddodd Fiona fraslun o hanes datblygiad y rheilffordd i ni, gan gychwyn gyda Rheilffordd Lerpwl a Manceinion, y rheilffordd gyntaf i'w hadeiladu ar gyfer teithwyr yn 1826, a Deddf Rheilffordd Caer a Chaergybi yn 1844 a alluogodd adeiladu'r rheilffordd gyntaf ar hyd arfordir Gogledd Cymru. Adeiladwyd rheilffordd o Riwabon i Ddolgellau, trwy Langollen, ac estynnwyd allan o Langollen ar hyd Dyffryn Dyfrdwy i Gorwen yn 1865. Yn 1860 pasiwyd Deddf i adeiladu rheilffordd Dinbych, Rhuthun a Chorwen ac roedd wedi ei chwblhau erbyn 1862. Roedd Gorsaf Dinbych yn gyffordd i ddwy lein, Y Rhyl i Gorwen a Dinbych i'r Wyddgrug. Roedd 'na orsafoedd yn Llanrhaeadr a Rhewl.

Caewyd llawer o'r gorsafoedd ar draws y wlad yn y 60au yn ganlyniad i adroddiad Beeching, gan gynnwys gorsaf Rhuthun yn 1962. Dymchwelwyd y rhwydwaith a'r adeiladau ond mae llawer o olion yn dal i'w gweld heddiw, megis Sied yr Injans yn Ninbych a'r Craen yn Rhuthun.



Sied yr Injans, Dinbych



Y Craen yn Rhuthun

Erbyn hyn, mae'r Craen yn cael ei arddangos wrth y Ganolfan Grefftau yn Rhuthun, ar ôl prosiect i'w adnewyddu, a ariannwyd gan Gyllid Treftadaeth y Loteri. Gweithiodd hyn fel catalydd i brosiect ehangach, yn casglu atgofion am y rheilffordd, yn archwilio rhai o nodweddion y lein ac yn ymchwilio ychydig i'r hanes. Mae Llyfr Atgofion am y rheilffordd a'r craen wedi ei lunio. Diolchodd Fiona i bawb sy wedi cefnogi'r prosiect.

**Ymweliad**



Bu Cymdeithas Astronomeg Llandyrnog yn ymweld â'r Amgueddfa un noson. Roedd nifer ohonynt wedi teithio o'r gorllewin ar gyfer yr ymweliad.




**O'r casgliad**

Cyrhaeddodd parsel trwy'r post ar ôl i bobl o Fanceinion ymweld â'r Amgueddfa yn ddiweddar - yn cynnwys rhodd o hen feicroffonau.

Dyma'r Telsen Ace 77, a gynhyrchwyd ym Manceinion tua 1935, pris 9/6. Roedd yn bosib ei ddefnyddio fel system PA yn y cartref, wrth ei gysylltu â radio, neu rywle arall trwy ei gysylltu â mwyhadur.

Dyma'r Grundig GCM3 a gynhyrchwyd yn 1956-7 ac a ddefnyddiwyd gyda recordydd tâp Grundig.



<u>Digwyddiadau'r dyfodol</u>

Ar Fawrth 24ain, bydd Mary Thorley, cyn-bennaeth Hyfforddiant Athrawon Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi-Sant yn cyflwyno ein darlith arlein nesaf, am **Rachel Barrett: Swffragét Gymraeg ac Ymgyrchydd Radical.** Roedd Rachel Barrett o Gaerfyrddin yn un o ffigurau blaenllaw mudiad y bleidlais i fenywod, yn areithydd a thrafodydd dawnus, a gafodd ei charcharu yn 1913 ar gyhuddiad o gynllwynio. Roedd yn un o aelodau mwyaf carismataidd mudiad y Swffragetiaid, er nad oes llawer o bobl yn gwybod am ei hanes. Mae Mary Thorley yn bwriadu cyhoeddi llyfr amdani.

Mae'r ddarlith yn agored i bawb ac yn cychwyn am 7.00 y.h. Ewch i wefan **Cwmulus** neu dudalen Facebook **Gwefr heb Wifrau** i gofrestru.

<u>Ymweld â'r Amgueddfa</u>

Bydd yr Amgueddfa yn ail-agor yn rheolaidd ar ddydd Sadwrn, Ebrill 8fed, 11.00yb – 4.00 yp. Cyn hynny, mae'n bosib trefnu apwyntiad i ymweld trwy gysylltu â <u>gwybod@gwefrhebwifrau.cymru</u>

Croeso cynnes i bawb.

## Mae'n bleser gan Barddas gyhoeddi mai Golygydd Creadigol newydd Cyhoeddiadau Barddas yw Bethany Celyn.



Yn wreiddiol o Ddinbych, mae Bethany bellach yn byw yng Nghaernarfon ac yn treulio llawer o'i hamser yn Aberystwyth hefyd. Graddiodd o King's College London yn 2016 gyda gradd dosbarth cyntaf mewn Iaith a Llenyddiaeth Saesneg, a graddiodd o Brifysgol Bangor gyda gradd dosbarth cyntaf mewn Ysgrifennu Creadigol Cymraeg.

Meddai Aneirin Karadog, Cadeirydd Pwyllgor Gwaith Barddas, "Mae'n bleser gennym i groesawu Bethany Celyn atom fel aelod brwdfrydig a hynod greadigol o deulu Barddas. Mae gan Bethany syniadau ffres a gweledigaeth gyffrous ar gyfer Cyhoeddiadau Barddas. Wedi cyfnod llwyddiannus o bron i bum mlynedd pan fu Alaw Mai Edwards yn rôl y Golygydd Creadigol, rydyn ni'n edrych ymlaen yn fawr i weld ei holynydd, Bethany, yn adeiladu ar y seiliau cadarn a osodwyd. Edrychwn ymlaen i weld Bethany Celyn hefyd yn symud Cyhoeddiadau Barddas ymlaen gan hefyd weithio ar wireddu mwy ar nod y Gymdeithas Gerdd Dafod, sef hybu'r gynghanedd a barddoniaeth Gymraeg ymysg y cyhoedd."

Ers blynyddoedd bellach, mae Bethany wedi gweithio yn y byd llenyddiaeth a chelfyddydau fel bardd comisiwn a chantores-gyfansoddwraig gan ymddangos yn helaeth ar y radio a'r teledu. Yn ddiweddar gweithiodd yn y trydydd sector chyda phobl ifanc bregus a digartref, ac mae hefyd wedi gweithio ym myd theatr a chydag ysgolion. Gallwn ddweud yn hyderus fod gan Bethany sgiliau cryf ac eang i'w trosglwyddo i'w rôl newydd ac rydym yn edrych ymlaen yn fawr i gyd-weithio â hi.

Meddai Bethany, "Dwi'n edrych ymlaen yn arw at gydio'n awenau creadigol y rôl a chael dylanwad ar y llyfrau sy'n cyrraedd ein silffoedd. Braint fydd cael cydweithio gyda'r holl olygyddion a beirdd a rhoi llwyfan i'r sbectrwm eang o leisiau talentog sydd yma yng Nghymru."

Mae Bethany eisoes wedi cychwyn ar ei swydd newydd a gellir cysylltu â hi gydag unrhyw syniadau cyffrous am gyhoeddiadau newydd drwy ebostio <u>bethany@barddas.cymru</u>.

Y BIGWN

# YN EISIAU!

Aelodau newydd i ymuno â thîm golygyddol bychan Y Bigwn, i ddechrau o fis Hydref 2022.

Oes ganddoch chi ddiddordeb mewn hanesion a chymeriadau lleol?

Ydych chi eisiau cyfrannu mwy i'r gymuned leol?


Ydych chi awydd sialens newydd?

Os ydi'r ymateb yn bositif i unrhyw un o'r cwestiynau hyn, cysylltwch â ni yn Y Bigwn am fwy o wybodaeth.

Ebost – <u>gwybod@ybigwn.cymru</u> neu <u>ybigwn@hotmail.co.uk</u>

Stan Lyall (01745 813659) neu

Sian Rogers (01745 813368)

MODURON Y GRAIG

Gorsaf Profion M.O.T.

(dosbarthiadau 3,4 a 7)

Atgyweirio ceir a thractorau

Iard y Graig, Ffordd y Graig,

Ffôn:01745 815606

550337 / 550512(cartref)

CLWB PÊL-DROED DINBYCH

Mae CPD Dinbych wedi cyrraedd rownd gynderfynol Tlws FAW Dragon Signs ar ôl curo Pill AFC o Gasnewydd o 3-1. Mae'r gystadleuaeth yn un drwy Gymru gyfan i dimoedd o Haenau 3, 4 a 5 o bêl-droed. Dinbych yw'r unig dîm o ogledd Cymru ar ôl, gyda Llandrindod Wells, Bridgend Street a Trethoma Kuebirds o ardal Caerdydd yn weddill. Bydd y gêm gynderfynol yn cael ei chwarae ddydd Sadwrn Mawrth 18fed a bydd gwrthwynebwyr Dinbych yn cael eu dewis yn fuan.

Teithiodd criw ffyddlon o gefnogwyr Dinbych i'r de i gefnogi'r tîm a chawsant eu gwobrwyo gyda pherfformiad dominyddol gan Ddinbych. Daeth dwy o'r goliau gan y capten Paul Bennett (un cic o'r smotyn), a'r olaf gan Harvey Bennett, y chwaraewr 16 oed.

Cafodd Harvey wythnos arbennig wedi iddo dderbyn newyddion ei fod o wedi cael ei ddewis i gynrychioli tîm Ysgolion Cymru Dan 18 yn Nhwrnamaint Roma Caput Mundi 2023. Deuddydd ynghynt, daeth ymlaen fel eilydd i sgorio dwy gôl i Ail Dîm Dinbych yn eu buddugoliaeth o 4-1 yn erbyn Holywell Development.

Yng Nghynghrair Lock Stock Ardal Gogledd Orllewin, mae Dinbych wedi parhau i ennill gemau, gyda buddugoliaethau o 3-1 yn erbyn Brickfield Rangers oddi cartref gyda goliau gan Paul Fleming, Nathan Brown a Matthew Worrall, yna 8-1 gartref yn erbyn Rhostyllen. Sgoriodd Craig Pritchard a Matthew Worrall dair gôl yr un, a dwy i Paul Fleming.

Mae tîm Dewi Llion bellach yn y pedwerydd safle yn y gynghrair, deg pwynt y tu ôl i'r arweinwyr CPD Y Rhyl 1879, ond gyda phedair gêm mewn llaw. Mae ganddyn nhw fis prysur o'u blaenau gyda Bangor 1876 gartref ac oddi cartref, yna Saltney a Dyffryn Nantlle, yn ogystal â gêm Cwpan y Gynghrair yn erbyn Llanfair Utd a'r gêm Gynderfynol o Dlws FAW.

Ynghyd â'u buddugoliaeth o 4-1 yn erbyn Holywell Development, mae'r Ail Dîm dan arweiniad Liam Nash hefyd wedi curo Ail Dîm Rhuthun gyda Josh Griffiths ac Ollie Hansen yn sgorio'r goliau pwysig.

Cafodd Tîm y Merched dan arweiniad Ellen Lawson ac Aled Davies, fuddugoliaeth o 3-0 mewn gêm gynghrair yn erbyn Llanfairfechan ym Mharc Canolog gyda goliau gan Lucy Morris, Charlotte Cooper ac Amber Hellon, cyn colli o 6-0 yn erbyn NFA.

Yng Nghwpan Merched NEWFA, wynebodd y Merched Bae Trearddur ym Mharc Canolog ac aeth y gêm i giciau o'r smotyn yn dilyn sgôr o 2-2. Katie Spruce, gôl-geidwad Dinbych oedd arwres yr awr gydag arbediadau anhygoel wnaeth sicrhau'r fuddugoliaeth i Ddinbych fydd nawr yn chwarae yn y gemau cynderfynol.

Mae'r Clwb bob amser yn edrych am wirfoddolwyr i helpu oddi ar y cae. Os hoffech helpu, cysylltwch ag Iwan Jones ar 07788627819. Buasai'r Clwb wir yn gwerthfawrogi unrhyw help.



CATalyst Systems - 01745 816611
Cymraeg
enquiries@catsystems.co.uk
Cyfrifaduron a Gliniadur (Trwsio a Gwerthu)
Sganwyr llaw - Systemau CCTV
Lloeren a hwb ar systemau rhyngrwyd 4G
Wi-Fi Adeilad i Adeilad www.catsatwales.co.uk
Unit 15B Stad Colomendy, Dinbych LL16 5TA

MEIRION DAVIES A'I GWMNI
01745 812400
Ystâd Ddiwydiannol Colomendy, Dinbych
* Dillad a phethau fferm
* Bwyd anifeiliaid anwes
* Esgidiau a.y.b.
* Teganau plant - a llawer rhagor
CROESO!
'Digon i bawb ohonoch
Ydyw lled ein carped coch'
John Glyn Jones

Emyr Evans a'i Gwmni Cyf
Uned 9, Stad ddiwydiannol Colomendy,
Dinbych 01745 812333


Stad Ddiwydiannol
Gaerwen
01248 421900
Darnau ar gael ar gyfer pob math o beiriannau fferm, Pibellau Hydrolic, Olew a Gwrthrew
e-bost:info@emyrevans.co.uk
JCB M-Hale Massey Ferguson Fendt Pottinger

CRD

CLWB RYGBI DINBYCH

Clwb Rygbi Dinbych 29 – 52 Clwb Rygbi Pwllheli 4ydd o Chwefror 2023

Gruffudd Roberts (3 chais)
Kieran Bonar (cais)
Daniel O'Sullivan (cic trosiad)
Tom Seddon (trosgais)
Croesawyd Pwllheli i Gaeau Les Phillips ar y pedwerydd o Chwefror a chafodd y cefnogwyr wledd o rygbi agored ymosodol a gwelwyd 13 cais yn cael eu sgorio, ond yn anffodus i Ddinbych, Pwllheli gafodd y fuddugoliaeth o wyth cais i bump.
Munud a phedwar eiliad yn unig gymerodd canolwr Dinbych, Gruff Roberts i sgorio cais cyntaf y prynhawn. Yn anffodus, ymatebodd Pwllheli yn syth gyda dau gais. Pum munud cyn y chwiban enillodd y blaenasgellwr Gwern Pierce linell feddiant a rhoi'r cyfle i Gruff Roberts guro cwpl o amddiffynwyr cyn sgorio ei ail gais. Dal i sgorio ceisiau wnaeth Pwllheli yn yr hanner cyntaf ac ar ôl pedwar deg munud 12-28 oedd y sgôr.
Yn gynnar yn yr ail hanner sgoriodd Pwllheli gais ond atebodd Dinbych gydag ymosodiad cryf a sgoriodd yr asgellwr Kieran Bonar gais o ganlyniad I gydweithio gwych gan y canolwyr Tom Seddon a Gruff Roberts. Erbyn canol yr ail hanner dominyddodd Pwllheli gan ychwanegu tri chais arall i'r sgôr. Er bod munudau yn brin, doedd Dinbych ddim am roi'r ffidl yn y to ac yn y munudau olaf sgoriodd Dinbych ddau gais arall. Cafodd Gruff Roberts hat-tric a sgoriodd capten CRD Tom Seddon, gais olaf y gêm.

(Jeff Jenkins a Beth Wyn Jones)

* * * * *

**Cyfarfod 'Un Clwb' Clwb Rygbi Dinbych**

Ar 1af Chwefror, cynhaliwyd cyfarfod arbennig yng Nghlwb Rygbi Dinbych. Mewn ymdrech i ddatblygu'r cysyniad o gydweithio yn well fel Clwb, gwahoddwyd 40 aelod i gyfarfod 'Un Clwb'. Roedd y 40 yn cynrychioli amryw o gategorïau o fywyd y Clwb - chwaraewyr hŷn, ieuenctid a'r merched, partneriaid chwaraewyr hŷn, cyn chwaraewyr, grŵp rheoli timau hŷn a'r ieuenctid, rhieni chwaraewyr timau adran iau, noddwyr, gwirfoddolwyr, cefnogwyr, aelodau oes, aelodau llawn, aelodau'r 'Exec', aelodau is bwyllgorau, aelodau prosiectau penodol a gweithwyr cyflogedig.
Gyda phawb yn fodlon cyfrannu, gwerthuswyd beth oedd y Clwb yn ei wneud yn dda yn ogystal â beth oedd angen ei wella a hefyd ei ddatblygu. Erbyn diwedd y cyfarfod hynod o fuddiol, cytunwyd ar flaenoriaethau byddem yn edrych i ffocysu arnynt er mwyn symud ymlaen a sicrhau ein bod yn gweithio'n well fel 'Un Clwb'. Rŵan bydd y gwaith go iawn yn dechrau! (Tegid Phillips, Llywydd Clwb Rygbi Dinbych)

************************

**Proffil Chwaraewyr Clwb Rygbi Dinbych**
Enw – Tomos Arthur Roberts

**Oed –** 12

**Clwb** – Tîm o dan 12 Clwb Rygbi Dinbych

**Safle** – Asgellwr

**Enw dy hyfforddwr** – Osian Hedd Williams

**Hoff dîm rygbi** – Cymru

**Hoff chwaraer rygbi** – Dan Biggar

**Beth wyt ti'n mwynhau'r fwyaf am chwarae i CRD?**
Cael hwyl yn chwarae a chydweithio gyda ffrindiau.

**Beth ydy dy hoff atgof CRD?**
Ennill gwobr 'hyfforddwr y flwyddyn' haf diwethaf.

*******

Ar brynhawn Sadwrn, 28ain o Ionawr croesawyd cefnogwyr ieuengaf i Glwb Rygbi Dinbych i fwynhau adloniant chwarae meddal, lliwio a pheintio wynebau.
Yn anffodus colli o drwch blewyn wnaeth y tîm cyntaf ar Faes Terry Bryer i Fethesda.
Clwb Rygbi Dinbych 21 – 22 Bethesda
Kieran Bonar (cais)
Sean Baker (cais)
Daniel O'Sullivan (trosiad a 3 chic gosb)

(Lluniau tudalen gyferbyn)

Cyngor Sir Ddinbych
Cynghorydd
Mark John Young

Dinbych Isaf - Annibynnol
Symudol: 07825 912554
www.sirddinbych.gov.uk
E:mark.young@sirddinbych.gov.uk

CYFREITHWYR SOLICITORS
GUTHRIE JONES & JONES
29 FFORDD RHUTHUN,
DINBYCH LL16 3EH
Ffôn : 01745 814 817 E-bost: dinbych@guthriejj.co.uk
Gwefan: www.guthriejj.co.uk
Gwasanaeth Cyfreithiol cyflawn yn y Gymraeg

# Clwb Rygbi Dinbych









Canolwr Clwb Rygbi Dinbych, Gruff Roberts yn benderfynol o sgorio ei drydydd cais.

Logan Jackson a'i ddraig goch CRD





Tomos Arthur Roberts




Rose Hargraves yn chwifio'i baner

←

Elen Wyn Jones a Llew Madoc-Jones wedi mwynhau gwneud baneri

→





Stan Roberts MBE a deithiodd i Gasnewydd i wylio Dinbych yn rownd yr wyth olaf.



Y capten, Paul Fleming yn y gêm yn erbyn Pill AFC.




Mari Jones a'i merch Lisi sy'n dilyn CPD Dinbych ar draws Cymru.



Craig Pritchard yn dathlu ei goliau yn erbyn Rhostyllen.



Eirlysau yn Eglwys Wen

